# Cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein – Rydw i Wedi Derbyn Llythyr yn Gofyn i Mi Gofrestru

Mae'r Gronfa Bensiwn wedi lansio fersiwn o Fy Mhensiwn Ar-lein sy'n fwy modern a chyfredol.

Mae'r gwasanaeth newydd yn eich galluogi i gael mynediad i'ch cyfrif pensiwn ar-lein mewn ffordd syml a hawdd.


**Cam 1 - Creu cyfrif newydd**

Cliciwch ar ddolen Fy Mhensiwn Ar-lein ar hafan ein gwefan.

Byddwch yn cael eich tywys i'r dudalen mewngofnodi. Cliciwch ar y botwm **creu cyfrif**.





Ticiwch y blwch defnyddio data personol a chlicio'r botwm Gadewch i ni ddechrau.




**Cam 2 – Cadarnhau eich manylion.**

Mae angen i ni sicrhau bod gennym gyfrif pensiwn ar eich cyfer, drwy nodi eich Cyfenw, Dyddiad Geni a rhif yswiriant gwladol ac yna creu cyfrinair diogel a sefydlu gwiriad dilysu 2 gam. Cliciwch y botwm **cyflwyno** i fynd ymlaen.





**Cam 3 – Cadarnhau pwy ydych chi**

Gallwch gadarnhau pwy ydych chi drwy'r system ddilysu electronig (llun ohonoch chi'ch hun a ID) parhewch gyda cham 3 neu dderbyn cod actifadu drwy'r post parhau i gam 4.

**Dilysiad Electronig**


Sganiwch y cod QR ar y sgrin gyda'r camera ar eich ffôn symudol neu lechen. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin ar eich ffôn neu lechen, gan dynnu llun o'ch ID a llun byw ohonoch chi'ch hun. Ar ôl gwneud hyn, dychwelwch i'r dudalen cadarnhau eich hunaniaeth a chlicio'r botwm parhau i ddilysu. Ewch ymlaen i gam 6.




# Cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein – Rydw i Wedi Derbyn Llythyr yn Gofyn i Mi Gofrestru


## Cam 4 – Gofyn am god actifadu yn y post

Cliciwch **Gofyn am god actifadu yn y post** - gwnewch yn siŵr bod y cyfeiriad ar y sgrin yn gywir a chlicio'r botwm anfon cod.








Unwaith y byddwch chi'n derbyn eich cod yn y post, cliciwch ar y botwm **creu cyfrif** ar y dudalen mewngofnodi, ticiwch y blwch defnyddio data personol a dewis **'Mae gen i god actifadu'**. Rhowch y manylion ynghyd â'r cod o'r llythyr ac ewch ymlaen i gam 5.





## Cam 5 – Gosod eich cyfeiriad e-bost

Byddwch yn cael eich tywys i'r dudalen gosod eich cyfeiriad e-bost. Defnyddir hwn er mwyn creu gwiriad dilysu 2 gam, haen ychwanegol o ddiogelwch i'ch cyfrif. Rhowch eich cyfeiriad e-bost a chliciwch ar y botwm 'cadarnhau cyfeiriad e-bost'.




## Cam 6 – Creu cyfrinair


Ar y dudalen creu cyfrinair, ewch ati i greu cyfrinair a chlicio'r botwm **Cyflwyno**




## Cam 7 – Rydym wedi anfon e-bost atoch

# Cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein – Rydw i Wedi Derbyn Llythyr yn Gofyn i Mi Gofrestru

Bydd cod 6 digid yn cael ei anfon i'r cyfeiriad e-bost rydych wedi'i roi. Ar ôl i chi ei dderbyn, nodwch y cod a chliciwch y botwm **parhau**




**Cam 8 – Cyflwyno Dilysiad SMS**

Mae'r system newydd ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein bellach yn cynnwys dilysu drwy neges destun. Ar ôl nodi'r cod 6 digid y byddwch yn ei dderbyn drwy e-bost, bydd angen i chi sefydlu dilysiad SMS. Cliciwch y botwm **parhau** i fynd ymlaen.




**Cam 8 - Sefydlu Gwiriad Dilysu SMS**

Mae'r dudalen Sefydlu Dilysiad SMS yn gofyn i chi nodi'ch rhif ffôn symudol, a fydd yn cael ei ddefnyddio i dderbyn codau mynediad ar gyfer eich cyfrif. Ar ôl nodi'r rhif, dewiswch y botwm **anfon neges destun**.




**Cam 9 – Cadarnhau eich cod unigryw**

Bydd angen i chi nodi'r cod unigryw 6 digid sydd wedi'i anfon i'ch ffôn symudol. Cliciwch ar y botwm **Mewngofnodi** i fynd ymlaen.




Byddwch nawr wedi mewngofnodi'n awtomatig i ddangosfwrdd eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein.

